| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **12 RHAGFYR 2008** |
| TEITL | **GWEITHREDIAD GWEFAN Y GRONFA BENSIWN** |
| ARGYMHELLIAD | **I GYMERADWYO'R GWARIANT A SEFYDLU'R SAFLE WE ARUNIG** |
| AWDUR | **GARETH JONES – RHEOLWR GWEITHREDIADAU PENSIYNAU** |

## 1. Cefndir

Bu i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo Cynllun Gwella Cyfathrebu'r Gronfa Bensiwn yn gynharach. Mae hyn yn cynnwys datblygu Gwefan Cronfa Bensiwn Gwynedd, a fydd yn darparu gwybodaeth i aelodau'r Cynllun yn ogystal â chyflogwyr y Gronfa. Yn ogystal, bydd cyswllt ar gael i alluogi'r aelodau i weld eu cofnod pensiwn personol a chyfrifo amcangyfrifiad o'u buddion ymddeol.

## 2. Datblygu Safle We'r Gronfa

Yn dilyn adolygiad o wefannau cronfeydd pensiwn eraill ac ymgynghori ag uned Technoleg Gwybodaeth Gwynedd, awgrymir mai'r ffordd orau ymlaen yw datblygu gwefan annibynnol i Gronfa Bensiwn Gwynedd, er mwyn darparu cyfleuster cyfeillgar i'r defnyddiwr.

Bydd y wefan sydd wedi ei chynllunio yn cynnwys adrannau ar gyfer:

- Aelodau Cyfredol
- Aelodau Gohiriedig
- Cynghorwyr
- Pensiynwyr
- Cyflogwyr
- Buddsoddiadau

Bydd cysylltiadau i wefannau defnyddiol eraill ar gael yn ogystal â'r system AXISe ar-lein, yn galluogi aelodau i:

- Gael golwg ar eu cofnodion personol
- Gyfrifo eu buddion
- Gwblhau ffurflenni
- Ofyn am wybodaeth

## 3. Anghenion Gwariant

Costau datblygu’r wefan: Cyfeirir hyn at y gost o gomisiynu dylunydd i ddylunio’r wefan o fewn gofynion Strwythur-Gwe Cyngor Gwynedd. Bydd y data yn cael ei fewnbynnu a’i gynnal gan staff Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Adeiladir y wefan camau. Disgwylir i’r cam cyntaf, ar gyfer aelodau cyfredol, gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2009. Bydd y camau dilynol yn cael eu cynnwys fel rhan o gynllun busnes yr uned Pensiynau yn y blynyddoedd i ddod.

Costau uwchraddio meddalwedd: Bydd ymgynghorwr o Heywood, darparwyr ein meddalwedd, angen gosod cam E o’r system Rhyngrwyd Hunan Wasanaeth i’r Aelodau ar ein gweinyddwr we newydd. Bydd hyn yn galluogi datblygiad y system AXISe ar-lein.

## 4. Crynodeb o’r Costau

Er mwyn galluogi’r Uned i weithredu’r wefan annibynnol, a chwrdd â thargedau'r Cynllun Gwella Cyfathrebu, ceisir gan y Pwyllgor hwn ganiatâd i ymgymryd â’r costau ychwanegol a ganlyn, er mwyn datblygu’r wefan.

| | **2008 / 09** |
|---|---|
| Costau datblygu’r wefan | £6,000 |
| Costau uwchraddio meddalwedd | £2,500 |
| **Cyfanswm** | **£8,500** |

## 5. Argymhelliad

Argymhellir fod y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo’r wefan annibynnol ac awdurdodi’r gwariant ychwanegol o £8,500 yn 2008/09 i weithredu’r datblygiadau i wefan y Gronfa i gyd fynd â’r Cynllun Gwella Cyfathrebu.